WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Sir Ceredigion**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1758A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Jason Blewitt ac Eleanor Bowdler dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor ymagwedd eglur at reolaeth ariannol yn y cwestiwn sydd o fudd iddo ac yn ei helpu i barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor ymagwedd eglur at reolaeth ariannol sydd o fudd iddo ac yn ei helpu i barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol 7

Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol eglur dros y tymor canolig sy'n ei gynorthwyo i barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol 7

Mae'r Cyngor wedi cyflawni'r gyllideb a gynlluniwyd ganddo ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf gorwariannau sylweddol ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn 8

Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio; fodd bynnag, yn gyffredin â chynghorau eraill, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol 10

Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau yn y gyllideb refeniw ac mae ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf 11

Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu'r dreth gyngor 12

Nid yw costau benthyca'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac nid oes cynlluniau ganddo i gynyddu ei gostau benthyca dros y blynyddoedd nesaf 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog.



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £144 miliwn**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 4000 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £362 miliwn**

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion 2018-19

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: Ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Rhagfyr 2019.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae gan y Cyngor ymagwedd eglur at reolaeth ariannol sydd o fudd iddo ac yn ei helpu i barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor strategaeth ariannol eglur dros y tymor canolig sy'n ei gynorthwyo i barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol;
- mae'r Cyngor wedi cyflawni'r gyllideb a gynlluniwyd ganddo ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf gorwariannau sylweddol ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn;

- mae gan y Cyngor hanes o gyflawni arbedion wedi’u cynllunio; fodd bynnag, yn gyffredin â chynghorau eraill, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol;
- nid yw’r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau yn y gyllideb refeniw ac mae ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf;
- mae gan y Cyngor hanes da o gasglu’r dreth gyngor; ac
- nid yw costau benthyca’r Cyngor wedi cynyddu’n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac nid oes cynlluniau ganddo i gynyddu ei gostau benthyca dros y blynyddoedd nesaf.

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor ymagwedd eglur at reolaeth ariannol sydd o fudd iddo ac yn ei helpu i barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol

### Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol eglur dros y tymor canolig sy’n ei gynorthwyo i barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu’n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae’n bwriadu ymateb i’r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom

7 Mae gan y Cyngor ymagwedd eglur at gynllunio ariannol a strategaeth ariannol eglur dros y tymor canolig. Daethom i’r casgliad hwn am bod y Cyngor:


- yn meddu ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sy’n cwmpasu’r cyfnod rhwng 2017-18 a 2020-21, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2018. Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yw’r sail ar gyfer cyllidebau blynyddol a bennir ac a gymeradwyir bob blwyddyn.
- yn gwybod beth yw’r bylchau rhagamcanol o ran cyllid ar gyfer cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (gweler Arddangosyn 4);
- mewn sefyllfa ariannol sefydlog gyda chronfeydd wrth gefn cryf a lefelau isel o fenthyca. Mae’r Cyngor o’r farn mai’r rheswm dros hyn yw ei allu i gael cefnogaeth gorfforaethol i gynlluniau arbedion o ganlyniad i strwythur canoledig sydd bellach yn ei le yn dilyn ailstrwythuro’r Cyngor yn 2018.
- yn cydnabod bod meysydd lle gellir cryfhau ei sefyllfa ymhellach. Er enghraifft:
  - gweithio ar Strategaeth Gyfalaf ddeng mlynedd a fydd yn cysylltu â Rhaglen Gyfalaf dros dair i bum mlynedd;
  - ceisio datblygu Strategaeth Carbon a Datblygu Economaidd y mae’n gobeithio y bydd yn adnabod Arbedion Effeithlonrwydd Trawsnewid, cynlluniau Buddsoddi i Arbed a ffrydiau incwm pellach ac yn cydblethu â Bargen Canolbarth Cymru;

- ceisio integreiddio cyllid Refeniw a Chyfalaf yn well; a
- cheisio defnyddio Data'n well i wneud penderfyniadau.

- yn dechrau o sero wrth bennu rhannau o'i gyllideb – byddai datblygu hyn yn cryfhau'r broses o bennu'r gyllideb ymhallch.

### Arddangosyn 4: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer eleni, a'r ddwy flynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni'r gyllideb a gynlluniwyd ganddo ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf gorwariannau sylweddol ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

## Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fod y Cyngor wedi cyflawni'r cyllidebau a gynlluniwyd ganddo dros y blynyddoedd diwethaf a'i fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â gorwariannau ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Daethom i'[r casgliad hwn am bod y Cyngor:

- wedi cyflawni'r gyllideb a gynlluniwyd ganddo ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf (gweler Arddangosyn 5), gan gyflawni gwargedion bach;
- yn ymwybodol bod y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi gorwario dros nifer o flynyddoedd (£2 filiwn yn ôl y ffigwr rhagamcanol yn 2019-20, £2 filiwn yn 2018-19 a £0.080 miliwn yn 2017-18) er bod y Cyngor wedi cyflawni ei gyllideb ar y cyfan;
- yn gwybod y rhesymau pam fod y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi gorwario (peidio â chyflawni arbedion wedi'u cynllunio a chostau/galw uwch);
- yn adolygu'r gyllideb i helpu i fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol trwy ddull wedi'i gynllunio sy'n cynnwys:
  - cyllideb ychwanegol o £1 filiwn ar gyfer 2019-20 i leddfu rhai o'r pwysau uniongyrchol;
  - adolygiad corfforaethol o'r model gweithredu ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion i newid i ddull mwy canoledig (yn enwedig ar gyfer Comisiynu a lleoliadau y Tu Allan i'r Sir), sy'n gyson â sut y mae meysydd eraill yn y Cyngor yn gweithredu erbyn hyn; a
  - chysylltu'r gyllideb yn fwy â lefelau'r galw sy'n deillio o'r dull Comisiynu newydd i ddechrau o sero gyda mwy o'r gyllideb.

## Arddangosyn 5: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ar 30 Mehefin 2019).

| | Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net | Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net | Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan | Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £135.2m | £134.7m | Gwarged o £0.5m | Gwarged o 0.38% |
| 2018-19 | £140.24m | £140.21m | Gwarged o £0.03m | Gwarged o 0.02% |
| 2019-20 | £82.5m | £81.8m | Gwarged o £0.7m | Gwarged o 0.81% |

Ffynhonnell: Adroddiadau Cyngor Sir Ceredigion ar y gyllideb i'r Cabinet

## Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio; fodd bynnag, yn gyffredin â chynghorau eraill, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom fod gan y Cyngor hanes o gyflawni'r arbedion y mae wedi'u hadnabod. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni canran uchel o'i arbedion wedi'u cynllunio dros y blynyddoedd diwethaf:
  - 2017-18 = £3.6 miliwn o'r £3.7 miliwn o arbedion a oedd yn ofynnol wedi'u cyflawni (97%);
  - 2018-19 = £5.6 miliwn o'r £6.2 miliwn o arbedion a oedd yn ofynnol wedi'u cyflawni (90%); a
  - 2019-20 = £5.6 miliwn o'r £5.9 miliwn o arbedion a oedd yn ofynnol wedi'u cyflawni ar 30 Mehefin 2019 (95%).
- mae'r Cyngor yn ymwybodol bod y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi'i chael yn anodd cyflawni'r arbedion a adnabuwyd ganddo. Mae hyn wedi cyfrannu'n rhannol at orwariannau gan wasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn fel a nodir uchod.
- lle mae meysydd wedi'i chael yn anodd cyflawni arbedion, mae'r Cyngor wedi mantoli'r cyfrifon ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf yn bennaf trwy arbedion ychwanegol a ffactorau lliniarol (Darpariaeth Isafswm Refeniw, gostyngiadau mewn cyfraniadau pensiwn a chasglu treth gyngor ychwanegol). Mae'r Cyngor yn cydnabod efallai nad yw'r dull hwn yn gynaliadwy ac mae'n ceisio datblygu strategaethau pellach fel a nodwyd yn flaenorol i geisio canfod arbedion effeithlonrwydd trawsnewid ehangach.

### Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| **£6.2m** | **£5.6m** | **£0.6m** | **90%** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol

## Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau yn y gyllideb refeniw ac mae ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom


13 Canfuom nad yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau yn y gyllideb refeniw a bod ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am bod y Cyngor:

- wedi sefydlu Polisi Cronfeydd wrth Gefn; ac nad oes cynlluniau ganddo i ddefnyddio balansau cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu cyllidebau refeniw ac eithrio i ariannu eitemau unigol eithriadol y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth.
- heb wneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau yn y gyllideb refeniw dros y blynyddoedd diwethaf;

- wedi cynyddu ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy dros y blynyddoedd diwethaf (o £19.4 miliwn yn 2017-18 i £22.3 miliwn yn 2018-19).
- yn bwriadu cynyddu ei gronfeydd wrth gefn ymhellach dros y blynyddoedd nesaf fel rhan o ddatblygu Strategaeth Gyfalaf ddeng mlynedd a Strategaeth Carbon a Datblygu Economaidd. Mae'r Cyngor yn bwriadu ariannu cyfran fawr o'r strategaethau hyn o gronfeydd wrth gefn yn hytrach nag ysgwyddo benthyciadau ychwanegol.

#### Arddangosyn 7: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



| **£140.2m** | **£22.3m** | **15.9%** |
| --- | --- | --- |
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net |

Ffynhonnell – Hunanasesiad Cyngor Sir Ceredigion

## Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu'r dreth gyngor

#### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

#### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fod gan y Cyngor hanes da o gasglu'r dreth gyngor. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r dreth gyngor yn cynrychioli swm cynyddol o gyfanswm yr incwm ac mae bellach yn 20% o incwm y Cyngor. Ar y cyfan mae'r Cyngor wedi cynyddu ei dreth gyngor 5% yn flynyddol, er ei fod wedi cynyddu 7% y llynedd.

- mae wedi cyflawni cyfraddau da o ran casglu'r dreth gyngor dros y blynyddoedd diwethaf (97.3% yn 2017-18 a 97.2% yn 2018-19).

### Arddangosyn 8: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19.



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£41.2m** (97.2%) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£42.4m**

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion

## Nid yw costau benthyca'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac nid oes cynlluniau ganddo i gynyddu ei gostau benthyca dros y blynyddoedd nesaf

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom nad yw costau benthyca'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac nid oes cynlluniau ganddo i gynyddu ei gostau benthyca dros y blynyddoedd nesaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi benthyca'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae ei gost benthyca fel cyfran o'i gyllideb refeniw net yn gymharol isel ac nid yw wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hwn

wedi bod yn benderfyniad bwriadol gan y Cyngor i sicrhau cyllid sefydlog trwy leihau i'r eithaf lefelau'r costau benthyca; ac

- nid yw'r Cyngor wedi benthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol. Mae ganddo gynlluniau ar gyfer buddsoddi masnachol yn y dyfodol unwaith y bydd wedi cwblhau ei Strategaeth Carbon a Datblygu Economaidd ond mae'n bwriadu ariannu hon trwy gynyddu cronfeydd wrth gefn yn hytrach na benthyca rhagor.


### Arddangosyn 9: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



**4%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion 2018-19

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru